**Ysgol Gymraeg Pwll Coch – Teulu mawr ŷm ni i gyd!**

**Cylchlythyr – Newsletter**

**23/01/2026**

## Taith Blwyddyn 4 i Fae Caerdydd

Cafodd ein disgyblion Blwyddyn 4 amser bendigedig ar eu taith breswyl i Ganolfan Yr Urdd ym mae Caerdydd wythnos diwethaf. Mwynheuon nhw fowlio 10, Techniquest, ymweliad â'r Senedd a ffilm yn y sinema. Cynrychiolodd y disgyblion yr ysgol yn wych drwy gydol y daith. Diolch yn fawr iawn i'r holl staff a wnaeth ofalu am y disgyblion ar y daith.

## Year 4 Residential Trip to Cardiff Bay

Last week, our Year 4 pupils enjoyed a fantastic residential trip to the Urdd Centre in Cardiff Bay. They had great fun bowling, exploring the wonders of Techniquest, visiting the Senedd and watching a film at the cinema. The pupils represented the school brilliantly throughout the visit. A big thank you to all the staff who supported and looked after the pupils.

Urdd

## Sgwrs Eisteddfod i Rieni a Gwarcheidwaid

Gyda'r Eisteddfod ar y gweill, rydym yn awyddus i gynnig sesiwn wybodaeth i rieni am drefniadau'r gystadleuaeth. Os nad ydych yn gyfarwydd â threfniadau Eisteddfod yr Urdd, hoffwn estyn croeso i chi ddod i wrando ar gyflwyniad a chael sgwrs gyda Mrs Griffiths-Jones ar y 4ydd o Chwefror am 3:30yh. Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

## Eisteddfod Session for Parents and Guardians

With the Eisteddfod fast approaching, we are eager to offer an information session for parents and guardians about the competition arrangements. If you are unfamiliar with the Urdd Eisteddfod and would like to learn more, we'd like to invite you to a presentation and conversation with Mrs Griffiths-Jones on the 4th of February at 3:30pm.

## Cwis a Twmpath

Hoffwn eich gwahodd i Gwis a Twmpath y Gymdeithas Rhieni ar nos Wener y 13eg o Fawrth yn Neuadd Eglwys Santes Catherine am 7:30yh. Bydd yr arian a chodwyd yn mynd at gronfa'r Gymdeithas Rhieni ac yn cyfrannu at welliannau yn ein hysgol. Bydd lluniaeth ysgafn a bar i gael ar y noson! Dewch yn llu!

## Quiz and Dance

We would like to invite you to the PTA Quiz and 'Twmpath' (Dance) at Saint Catherine's Church Hall on Friday the 13th of March at 7:30pm. All money raised will contribute to school improvements. Light refreshments and a bar will be available on the night. Come and enjoy!



## Gwersi Nofio Blwyddyn 4

Ar ddydd Llun, 26ain o Ionawr, mi fydd disgyblion Blwyddyn 4 yn derbyn gwersi nofio bob dydd am bythefnos. Sicrhewch fod pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon gan y byddwn yn gadael yr ysgol ar ôl cofrestru. Bydd angen gwisg nofio o dan dillad ysgol, tywel a 'goggles' nofio ar y disgyblion bob dydd os gwelwch yn dda. Diolch am eich cefnogaeth.

## Year 4 Swimming lessons


On Monday, 26th Of January, year 4 pupils will receive swimming lessons every day for two weeks. Please ensure that all pupils arrive at school on time as they will be leaving school after registration. The pupils will need a swimming costume under their school uniform, towel and swimming 'goggles' every day. Thank you for your support.

## Bws Beics Pwll Coch

Bydd Bws Beics cynta'r flwyddyn ar ddydd Gwener, 30.01.26.Byddwn yn cwrdd o flaen Chapt er am 8.20 i adael am 8.30 neu mae croeso i chi ymuno ar gornel Brunswick/York St am 8.35 Rydym o hyd yn chwilio am fwy o farsialiaid i helpu redeg y Bws Beics. Cysylltwch â Claire ar 07843771206 os fedrwch helpu! Gobeithiwn eich gweld chi yno!

## Pwll Coch Bike Bus

The first Bike Bus of the year will be held on Friday 30.01.26. We will be meeting at Chapter at 8.20 to leave at 8.30 or you're welcome to join on the corner of Brunswick/York St at 8.35. We're always looking for more marshals to help keep the Bike Bus running, please contact Claire on 07843771206 if you can help! We hope to see you there!






### Cyfarfod Ffrindiau Pwll Coch

Bydd Cymdeithas Rhieni Ffrindiau Pwll Coch yn cwrdd am **19:00 ar nos Fawrth, 27/01/26**, yn nhafarn y Cricketers. Byddwn yn trafod ein cynlluniau am weddill y flwyddyn ysgol. Hoffwn ymestyn croeso cynnes i aelodau presennol ac aelodau newydd!

### Pwll Coch PTA Meeting

The PTA (Ffrindiau Pwll Coch) will meet at **19:00 on Tuesday night, 27/01/26**, in the Cricketers pub. We will be discussing our plans for the rest of the school year. I would like to extend a warm welcome to existing and new members!

### Sesiwn Agored y Feithrin

Diolch i bawb a fynychodd sesiwn agored y Feithrin ddoe. Os nad oeddech ar gael i ddod neu os ydych yn nabod unrhyw un sydd â phlentyn sydd yn dechrau yn y Feithrin ym mis Medi, peidiwch ag oedi i gysylltu.

### Nursery Open Session

Thank you to everyone who attended the Nursey open session yesterday. If you were unable to attend or if know anyone who has a child starting in the Nursery in September, do not hesitate to get in touch.

### Nosweithiau Rhieni – Newid i'r Dyddiad

Hoffwn dynnu eich sylw at newid i ddyddiad ein Nosweithiau Rieni'r tymor hwn. Byddwn nawr yn cynnal y cyfarfodydd yn ystod wythnos yn cychwyn y 23ain o Fawrth. Mi fydd mwy o wybodaeth yn cael eu rhannu gyda chi maes o law ynglŷn â sut i drefnu cyfarfod eich plentyn / plant.

### Parents' Evenings – Change of Date

We would like to draw your attention to a change of date for our Parents' Evenings this term. We will now be holding the meetings during the week commencing the 23rd of March. More information will be shared with you in due course regarding how to arrange a slot for your child's/children's meeting.

**'Everyone's Invited' – Sgwrs gyda Rhieni**

Yn dilyn proses ofalus o ymgynghori, cynllunio a chydweithio, mae'n bleser cynnig sgwrs i rieni ar noson y 10fed o Chwefror dan ofal yr elusen Everyone's Invited. Er mwyn sicrhau y gall pawb sydd am fynychu cael mynediad at y sesiwn, bydd yr elusen yn cynnal 2 sesiwn ychwanegol ar yr 16eg a'r 23ain o Chwefror. Bydd y sgwrs hon yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth ac arweiniad manwl i rieni ar Gyfryngau Cymdeithasol a bydd yn darparu gwybodaeth fanwl am TikTok, Snapchat, Roblox a Fortnite a sut i sicrhau bod yr holl fesurau rheoli a mesurau diogelu priodol ar waith i rieni. Bydd y sgwrs hefyd yn canolbwyntio ar y cynnydd mewn misogyny ar-lein. Nod y sgwrs yw darparu cyfoeth o wybodaeth ymarferol a defnyddiol i rymuso rhieni â gwybodaeth ymarferol am ddiogelwch ar-lein a pheryglon ar-lein, ac mae'n disgyn yn amserol iawn ar Ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2026. Bydd holl ysgolion clwstwr Glantaf yn rhan o'r digwyddiad hwn hefyd fel bod holl rieni ein hysgolion clwstwr yn gallu elwa o'r un wybodaeth.

I gofrestru ar gyfer un o'r sesiynau, dilynwch y ddolen isod. Ysgrifennwch lythrennau cyntaf eich enw a'ch cyfenw mewn colofn i gofrestru ar gyfer sesiwn (ond i weld nifer y bobl sy'n cofrestru yw'r wybodaeth hon). Caiff y wybodaeth hon ei dileu cyn gynted ag y bydd y sesiwn yn dechrau. Os bydd y sesiynau'n llawn, ychwanegwch eich enw at y rhestr aros a bydd yr elusen yn gwneud ei gorau i redeg sesiwn ychwanegol os oes digon o alw.

https://docs.google.com/spreadsheets/d/1JeF9x_vASQpS7UeuqGNFuKN-cTR4FZKI5kOkaHcbXIg/edit?usp=sharing

**Dolenni Zoom i'r 3 sesiwn:**

Chwefror, 10fed 6pm - 7pm: https://us06web.zoom.us/j/82831052303

Chwefror, 16eg 6pm - 7pm: https://us06web.zoom.us/j/89510962938

Chwefror, 23ain 6pm - 7pm: https://us06web.zoom.us/j/86237052558

**'Everyone's Invited' – Parent Talk**

Following careful consultation, planning and co-operation, it's a pleasure to offer a parent talk on the evening of the 10th of February hosted by the charity Everyone's Invited. To ensure that everyone who wishes to attend, can gain access to the session, the charity will run 2 additional sessions on the 16th and 23rd of February. This talk will focus on providing in depth information and guidance to parents on Social Media and will provide detailed information on TikTok, Snapchat, Roblox and Fortnite and how to ensure all appropriate parental controls and safeguards are in place. The talk will also focus on the rise of online misogyny. This parent talk aims to provide a wealth of practical and useful information to empower parents with practical knowledge on online safety and online dangers, and the first session falls on Safer Internet Day 2026. Ysgol Gymraeg Pwll Coch along with all Glantaf cluster schools are a part of this event so that all the cluster school parents can benefit from the same information.

To sign up for one of the sessions please follow the link below. Please write your initials into a column to sign up for a session - this information is just to see numbers signing up. This information will be deleted as soon as the session starts. If the sessions fill up, please add your name to the waitlist and the charity will do their best to run an additional session if there is sufficient demand.

https://docs.google.com/spreadsheets/d/1JeF9x_vASQpS7UeuqGNFuKN-cTR4FZKl5kOkaHcbXIg/edit?usp=sharing

**Links to the 3 Zoom sessions:**

February, 10th from 6pm - 7pm: https://us06web.zoom.us/j/82831052303

February, 16th from 6pm - 7pm: https://us06web.zoom.us/j/89510962938

February, 23rd from 6pm - 7pm: https://us06web.zoom.us/j/86237052558






| Diwrnodau di-wisg Ysgol/ Non-Uniform Days | Cyfleoedd i rieni a gwarcheidwaid/ Parental Engagement | Profiadau a Digwyddiadau/ Experiences and Events | Eisteddfod Yr Urdd 2026/ Urdd Eisteddfod 2026 |
|---|---|---|---|
| **13/02/26**<br><br>Dydd Miwsig Cymru – Lliwiau Cymru<br><br>Welsh Language Music Day – Wear Welsh Colours | **27/01/26**<br><br>Cyfarfod Ffrindiau Pwll Coch – 7yh<br><br>PTA Meeting – 7pm<br><br>Cricketers, Pontcanna | **26/01/26**<br><br>Gwersi Nofio Blwyddyn 4<br><br>Year 4 Swimming Lessons | **10/02/26**<br><br>Eisteddfod Offerynnol<br><br>Instrumental Eisteddfod |
| **02/03/26**<br><br>Dydd Gŵyl Dewi Lliwiau Cymru neu Wisg Traddodiadol<br><br>St. David's Day Welsh Colours or Traditional Clothing | **04/02/26**<br><br>Sgwrs am drefniadau Eisteddfod yr Urdd 3:30<br><br>Information about the Urdd Eisteddfod 3:30 | **03/02/26**<br><br>Bl5&6<br><br>Pêl Rwyd Cymysg Yr Urdd<br><br>Urdd Mixed Netball | **28/02/26**<br><br>Eisteddfod Cylch<br><br>Area Eisteddfod |
| **05/03/26**<br><br>Diwrnod y Llyfr<br><br>World Book Day | **13/03/26**<br><br>Noson Cwis a Twmpaath Ffrindiau Pwll Coch<br><br>PTA Quiz and Twmpath (Dance)<br><br>7:30<br>Neuadd St Catherine Hall | **09/02/26**<br><br>Bl6<br><br>Gwersi Seiclo<br><br>Cycling Lessons | **03/03/26**<br><br>Eisteddfod Ddawns<br><br>Dance Eisteddfod |
| **06/03/26**<br><br>Eisteddfod Ysgol – Lliwiau Llys<br><br>School Eisteddfod – House Colours | **23/03/26**<br><br>Nosweithiau Rhieni<br><br>Parents' Evenings | | |
| **20/03/26**<br><br>Diwrnod Trwynau Coch | | **10/02/26**<br><br>Bl3 | **19/03/26**<br><br>Eisteddfod Theatr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Red Nose Day | | PBuzz **25/02/26** Bl5&6 Ymweliad *Yes Cymru* Visit | Theatre Eisteddfod |
| **27/03/26** Diwrnod ola'r Tymor Last day of Term | | **12/03/26** 5&6 Pêl-droed Cymysg Yr Urdd Urdd Mixed Football | **21/03/26** Eisteddfod Sir Regional Eisteddfod |
| | | | **23-29/05/26** Eisteddfod Yr Urdd, Ynys Môn Urdd Eisteddfod, Anglesey |

| **Dyddiadau HMS 2025-26 INSET Dates** |
|---|
| Dydd Llun / Monday 13/04/26 |
| Dydd Llun / Monday 20/07/26 |
| Am restr o ddyddiadau tymor ysgol 2025-26, cliciwch yma! For a list of 2025-26 term dates, click here! |